


Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Partneriaeth Pysgotwyr-Gwyddonwyr er budd Pysgodfeydd Cynaliadwy



Llythyr Newyddion 4 Mawrth 2020

Ar adeg mor heriol i'r diwydiant pysgota a'n cymunedau yn gyffredinol, rydym wedi bod yn ailystyried ein cynlluniau ar gyfer ymchwil ym maes pysgodfeydd cynaliadwy ym Mhrifysgol Bangor yn ystod y cyfnod hwn pan fo'r coronafeirws yn ymledu. Rydym yn ymwybodol o'r niwed mawr a wnaed eisoes i fywoliaeth llawer o bobl, ac yn meddwl hefyd am y bywydau a allai gael eu colli o ganlyniad i'r feirws dros y misoedd sydd i ddod. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu peidio â chysylltu â physgotwyr yn uniongyrchol dros y ffôn neu drwy ebost i ofyn am gymorth gyda gweithgareddau ymchwil ar hyn o bryd, oni bai eich bod eisoes wedi gofyn i ni wneud hynny. Rydym yn deall na fydd hynny'n flaenoriaeth i chi ar hyn o bryd. Rydym yn dal i weithio gystal ag y gallwn i gyflawni'r ymchwil a fydd yn bwysig i bysgodfeydd Cymru ar ôl i'r cyfnod anodd hwn ddod i ben, a byddem yn croesawu unrhyw ymwneud gan bysgotwyr yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd y llythyr newyddion hwn yn egluro sut y gallwch barhau i gymryd rhan ac â phwy y dylech gysylltu. At hynny, byddwn yn diweddarau ein gwefan gystal ag y gallwn ac yn rhannu unrhyw ddiweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Cofion cynnes, Natalie a'r tîm.

Isafswm maint glanio cramenogion a bylchau dianc - astudiaeth o effaith.

Roeddem yn bwriadu defnyddio data o brosiect Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yn 2012-2015, data a gasglwyd yn 2019 a data a gasglwyd eto yn ystod y gwanwyn a'r haf eleni er mwyn astudio'r modd y mae newidiadau i isafswm maint

glanio cramenogion ac i fylchau dianc wedi effeithio ar fioleg poblogaeth y bysgodfa. At hynny, roeddem yn bwriadu casglu gwybodaeth gan bysgotwyr er mwyn deall effaith economaidd y newidiadau hyn, a chanfyddiadau pysgotwyr ynghylch sut y maent wedi effeithio ar eu gwaith pysgota, y stoc a'u bywoliaeth. Mae gwaith ar y prosiect hwn bellach wedi'i atal oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r coronafeirws. Fodd bynnag, os oes unrhyw un yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch â Natalie. Mae modd o hyd i ni gynnal cyfweiliadau a chwblhau holiaduron dros y ffôn a thrwy ebost, a chynnal arolygon ar-lein. Cyn gynted ag y bydd modd codi'r cyfyngiadau ar gadw pellter cymdeithasol a theithio, byddai gennym ddiddordeb mewn gweithio gyda physgotwyr i greu arolwg cewyll, a allai ddarparu incwm y mae mawr ei angen trwy hurio cychod. Cysylltwch â Natalie ar 07925 686305 neu n.hold@bangor.ac.uk os ydych yn fodlon cymryd rhan yn ein harolygon ar-lein neu dros y ffôn yng nghyswllt y mater hwn yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Nosweithiau ymgysylltu â physgotwyr

Cafodd y cyfarfodydd rhannu gwybodaeth ar gyfer pysgotwyr ledled Cymru eu cynnal yn ôl y bwriad ar 11-13 Chwefror. Daeth cyfanswm o 33 o bysgotwyr i'r cyfarfodydd, a oedd yn cynrychioli gwahanol fathau o offer pysgota a gwahanol rywogaethau targed. Mae'n bosibl bod y stormydd a'r tywydd garw wedi bod o gymorth i gynyddu nifer y pysgotwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yng Nghaernarfon ac Abertawe, ond arweiniodd cyfnod o dywydd gwell at nifer is yn Aberystwyth (rydym yn awyddus i ymgysylltu mwy â physgotwyr yn y canolbarth, felly cofiwch gysylltu â ni). Gwnaethom gyflwyno aelodau'r tîm a'n hymchwil ynghylch cimychiaid, cregyn bylchog, crancod, morgathod a draenogiaid môr. Yn y cyfarfod yn Aberystwyth, gwnaeth y sawl sy'n cydweithio â ni yn y Brifysgol ddangos y system gamerau newydd a fydd yn gallu adnabod crancod a chimychiaid yn awtomatig gan nodi eu maint a'u rhyw a chasglu data heb fod angen arsylwyr ar fwrdd y cwch. Cawsom drafodaethau a chwestiynau da gan y diwydiant, a chyfle i rwydweithio a chreu cysylltiadau newydd ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Rydym yn gobeithio bod y digwyddiadau wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt deall y gwaith y mae ein tîm yn ei wneud - roedd yn ddefnyddiol iawn i ni glywed safbwyntiau'r diwydiant. Rydym yn gobeithio ymgysylltu mwy â'r pysgotwyr yn y dyfodol. Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech gymryd rhan yn ein gwaith yn y dyfodol.

Pysgod asgellog

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi cael data'n ôl o'n gwaith ar isotopau sefydlog ar gyfer draenogiaid môr a morgathod, ac rydym wrthi'n dadansoddi'r data hwnnw yn awr er mwyn gweld yn fras ymhle y mae'r pysgod wedi bod yn bwydo ac ar beth. Gallwn gymharu'r data ar gyfer pysgod a ddaliwyd mewn gwahanol leoliadau, e.e. y gogledd a'r de, er mwyn archwilio'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Rydym bron â gorffen paratoi otolithau'r draenogiaid môr ifanc, ac yn awr gallwn ddechrau cyfrif y llinellau er mwyn pennu oedran pob pysgodyn unigol a ddaliwyd yn aberoedd Cymru a Lloegr y llynedd. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn archwilio dulliau eraill o bennu oedran elasmobranciaid gan ddefnyddio eu fertebrâu. Rydym eisoes wedi staenio'r fertebrâu a chyfrif y bandiau twf, ond rydym am gymharu hynny â gosod y fertebrâu mewn resin a thorri darn bach tenau er mwyn cyfrif y bandiau twf sydd y tu mewn i'r fertebrâu. Yna, byddwn yn gallu cymharu'r canlyniadau a rhoi prawf ar ein cywirdeb.

Crancod

Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch a lenwodd yr holiadur byr ar grancod llawn wyau yn ein digwyddiadau i bysgotwyr. Mae holl brofiad pysgotwyr yn hanfodol i'n helpu i nodi ardaloedd a allai fod yn bwysig i gynnal y bysgodfa. Hoffem gael llawer mwy o ymatebion i'r holiadur. Os ydych yn fodlon llenwi'r holiadur, sy'n cymryd llai na 5 munud i'w gwblhau, cysylltwch ag Alec (a.moore@bangor.ac.uk) a fydd yn gallu anfon copi atoch drwy ebost neu eich tywys drwyddo dros y ffôn. Byddem yn croesawu ymatebion o bob rhan o'r arfordir, ond prin yw'r ymatebion yr ydym wedi'u cael o'r canolbarth a'r de. Felly, cofiwch gysylltu os ydych yn pysgota â chewyll yn yr ardaloedd hynny'n benodol.



Cregyn bylchog

Mae disgwyl i arolwg blynyddol Cymru o gregyn bylchog ar gyfer 2020 gael ei gynnal ym mis Ebrill eleni. Yn rhan o'r arolwg hwn, cynigiwyd bod pedwar cwch masnachol yn pysgota ochr yn ochr â chwch ymchwil y Brifysgol (Cwch Ymchwil y Tywysog Madog, sydd yn y llun isod). Bydd y pysgota cymharol hwn yn ein galluogi i feintoli'r gwahaniaethau o ran perfformiad pysgota rhwng y Tywysog Madog a phedwar cwch masnachol, a fyddai'n bwysig tu hwnt pe bai cychod masnachol yn cael eu defnyddio ar gyfer arolygon o stoc cregyn bylchog yn y dyfodol. Yn anffodus, fodd bynnag, oherwydd Covid-19, mae'n bosibl y bydd yr arolwg a'r gwaith cymharu hwn yn cael eu gohirio tan yn ddiweddarach. Mae gwaith arall sy'n mynd rhagddo yn cynnwys datblygu'r modelau asesu stoc ymhellach er mwyn gwella eu perfformiad, sydd hefyd yn golygu rhoi prawf arnynt â data o'r bysgodfa cregyn y brenin sydd yn Ynys Manaw, er mwyn helpu i ddilysu a gwirio eu perfformiad. Mae'r cregyn bylchog a gasglwyd yn ystod mis Ebrill 2019 i gyd wedi'u difynnu, a byddwn yn mynd ati'n awr i ddadansoddi patrymau amserol a gofodol o safbwynt aeddfedu a chyfraddau silio, o'u cyfuno â data arolygon blaenorol. Mae gwaith yn parhau hefyd ar amcangyfrif effeithlonrwydd absoliwt dalfeydd pum cwch masnachol o astudiaeth hanesyddol, sy'n bwysig o safbwynt meintioli priodoldeb asesu stoc drwy greu graddfa ar gyfer maint dalfeydd masnachol o gymharu â maint y stoc.




Gwaith Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewropeidd yn Lloegr

Draenogiaid môr a morgathod styds - Lloegr

Rydym wedi bod yn brysur yn dadansoddi'r data o'r draenogiaid môr a'r morgathod a gasglwyd yn ystod hydref 2019 ar gyfer yr astudiaeth beilot yng ngogledd-orllewin Lloegr, er mwyn deall bioleg eu poblogaeth yn well a pherthynas y rhain â stoc Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys asesu gonadau draenogiaid môr er mwyn pennu eu rhyw, eu haeddfedrwydd a'u statws o ran silio, a 'darllen' llinellau twf ar gennau er mwyn amcangyfrif oedran a thwf. Mae gwaith cychwynnol i ddadansoddi samplau wedi dangos rhai patrymau diddorol – er enghraifft, pysgod benywaidd oedd fwyaf amlwg yn nalfeydd draenogiaid môr gogledd-orllewin Lloegr, fel yr oedd prosiect blaenorol Cronfa Pysgodfeydd Ewrop wedi dangos ar gyfer gogledd Cymru.





Llun 1 – Draenog môr benywaidd a ddifynwyd, gydag ofarïau sy'n datblygu yn y cyfnod cynnar
Llun 2 – Cen o ddraenog môr 5 oed

Cysylltu â ni

Fisheries@bangor.ac.uk

Pysgodfeydd Cynaliadwy Cymru,
Canolfan Môr Cymru,
Prifysgol Bangor,
Ffordd y Coleg,
Porthaethwy
LL59 5AB

sustainable-fisheries-wales.bangor.ac.uk

